Ydych chi erioed wedi eisiau chwarae offeryn pres? Mae'r band yn gwneud cwrs/diwmod agored sydd ar gael i bawb, o offerynwyr profiadol i ddysgwyr. Y gost yw £5.

10y.b.-4y.h. ar
ddydd Llun y 14^{eg}
o Ebrill 2014





Urdd: Taith Paris

Yn Disneyland Paris cefais lawer o gyfleoedd gwahanol gan gynnwys cyfarfod pobl ddiddorol a gwneud ffrindiau newydd; gweld y Tŵr Eiffel a mynd ar drip dŵr i weld golygfeydd ysblenydd.

Mae Paris yn lle anferth gyda llawer o bethau i wneud a lle gallai eich breuddwydion ddod yn wir! Mae'n lle hefyd i deuluoedd gael treulio amser efo'i gilydd. Wrth fynd i Disneyland Paris rwyf wedi gweld bod yna lawer o gyfleoedd mewn bywyd. Rydw i'n awgrymu os ydych yn cael cynnig mynd yna, gwnewch yn fawr ohono; fyddwch chi byth yn anghofio'r lle.

Diolch i bawb wnaeth helpu gyda'r trefnu.

Toni Jade Thomas


Whilst in Disneyland Paris we had plenty of different experiences: I met new people from different schools and made plenty of new friends. We also saw the Eiffel Tower and went on a boat trip and saw some of the beautiful sights.

It is a massive place where dreams can come true. It is also a place where families can spend time together. After being in Disneyland Paris I am more aware of all the different opportunities available in our world today. I would definitely recommend going there: if you get the opportunity, take it! You will never forget it!

Thank you to everyone who organised the trip.

Toni Jade Thomas







Taith Wythnos Gwyddoniaeth

Ar y 27ain o Fawrth, aeth blwyddyn 7 a thri athro gwyddoniaeth ar ymweliad i brifysgol Aberystwyth ar gyfer 'Wythnos Genedlaethol Gwyddoniaeth a Pheirianeg 2014'. Cafwyd amser diddorol iawn yn edrych ar 22 o wahanol arddangosfeydd gwyddonol yn y neuadd chwaraeon. Gwelwyd nifer o anifeiliaid annaeorol, megis drewgi, pryfaid cop, nadroedd a 'Binturong' neu'r 'Bearcat'. Yn ogystal â hynny, cwblhawyd nifer o weithgareddau, megis amgylchynu'r corff mewn swigen enfawr, lleoli lloerenni byd-eang (GPS) a dysgu am greaduriaid y môr. Roedd pob dysgwr yn llenwi holiadur yn ystod yr ymweliad, ac mi fydd y rhai cywir yn cael eu cofrestru ar gyfer gwobr. Bydd pob dysgwr a lenwodd yr holiadur yn derbyn gwobr gan drefnwyr yr 'Wythnos Genedlaethol Gwyddoniaeth a Pheirianeg'.

Edrychwn ymlaen at wythnos gwyddoniaeth a pheirianeg 2015!

On the 27th of March, Year 7 and three science teachers went on an educational visit to Aberystwyth University for the 'National Science & Engineering Week 2014'. An interesting and fun time was had by all looking at 22 different science and engineering exhibitions in the sports hall.

Many exciting and unusual animals were seen on this day, such as a skunk, corn snakes, tarantulas and a 'binturong', also known as a 'bearcat'. As well as this, students enjoyed and completed a number of activities, such as encompassing the body in a large bubble, learning how global satellite positioning works (GPS) and learning about sea creatures. Each learner filled in a questionnaire during the visit, and all correct answers will be entered into a prize draw. All students that filled in a questionnaire will receive a prize courtesy of the organisers of the 'National Science and Engineering Week'.

We look forward to science and engineering week 2015!

PA MOR RIFOG

YDYCH CHI?

Ysgol Bro Ddyfi
twitter

A fedrwnch chi ddatrys problem rhif yr wythnos? Bob wythnos mae yna gwestiwn rhif gwahanol ar Twitter yr ysgol (@broddyfi). Beth am roi cynnig arni? Bydd gwobr ar ddiwedd pob tymor i'r disgybl sydd yn ateb y mwyaf o'r cwestiynau yn gywir.

Can you solve the numeracy problem of the week? Each week there is a different question to solve on the schools Twitter (@broddyfi). What about giving it a go? There will be a prize for the pupil that answer the most questions correctly at the end of each term.

twitter



HOW NUMERATE

ARE YOU?



Machynlleth D of E Group

This year there are 3 Bronze Groups (14 years old and over), 2 Silver Groups (15 years old and over) and 1 Gold Group (16 years old and over).

The group meets every Thursday between 3.30 and 5 at *Canolfan Hyddgen*. The group is open to any young people in the area under the age of 25.

All Expedition Training Schedules are listed below :

25/02/14	Introduction to map reading
15/04/14	Route Cards and bag packing
22/04/14	Orienteering practice walks
27/06/14	First Aid and Over night Camp Craft at Bro Ddyfi
28/06/14	
19/07/14	Practice Expedition
20/07/14	
21/07/14	
29/08/14	Qualifying Expedition
30/08/14	
31/08/14	

For further information please contact
nlr@broddyfi-hs.powys.sch.uk



Tim F1 Ysgol Bro Ddfyi

Ddydd Mawrth, yr 11eg o Chwefror, fe es i (Erwan Jones), Izak Zjalič, Scott Capon, George Horney, Jack Williamson a Ben Wilde i Brifysgol Bangor fel rhan o'n project F1, efo Mr Rowlands a Mr Owen. Roedd yn ddiwrnod hwyliog a diddorol.

Pan gyrrhaeddwn ni, fe osodwyd ein stondin, sy'n golygu gosod monitorau, i ddangos ein pwerbwynt, a stand i'n car ni a dau gar arall a fu'n cystadlu yn y blynyddoedd a fu. Yna aethom i'r ystafell gyflwyno i ddangos ein fideo a chyflwyno ein tîm.

Wedi hynny, fe aethom o amgylch y stondinau eraill i hyrwyddo ein tîm, gan weld llawer o wynebaw cyfarwydd hefyd. Wedyn fe aethom ni drwy archwil, er mwyn i ni allu esbonio'r cysyniadau gwyddonol tu ôl y car yn ogystal â pharatoi ein car at y ras.

Cyn i ni droi, roedd hi'n amser y ras. Fe aethom yn erbyn tîm arall, mewn rhyw fath o ras lusgiad. Yn ffodus roedd ein car ni'n gyflymach a daethom ni'n 4ydd allan o 10 yn y dosbarth Bloodhound.

Am weddill y diwrnod fe aethom o amgylch y stondinau, yn hyrwyddo ein tîm a'n stondin. Ar ôl hynny, cawsom ein galw at yr ardal eistedd, lle'r oedd y tîm trefnu'n cyflwyno'r gwobrwyon. Serch hynny, ni aethom drwodd i'r rownd nesaf yn Llundain, ond fe enillon ni wobwr am Hunaniaeth Tîm gorau, sy'n golygu ni oedd y rhai yn y gwisgoedd gorau a'r rhai a oedd wedi bihafio orau. Rydym yn gobeithio cael cystadlu eto oherwydd roedd yn brofiad da ac yn ddiwrnod diddorol tu hwnt.

Erwan Jones.

*On the 11th of February Erwan Jones, Jack Williamson, George Horne, Scott Capon, Ben Wilde and myself (Izak Zjalic) went to Bangor University as part of our **F1 in Schools** project, along with Mr Owen and Mr Rowlands. It was a very fun and interesting day.*

Once we arrived, we had to set up our stall, which meant setting up monitors to show our powerpoint and stands for our car and two others for our former cars. We were then taken to a room, where we had to present our team to the judges and show our videos.

*After that, we went round all the other stalls to promote our team, meeting a few old and familiar faces as well. We then moved on to **Scrutineering** so we could go through the science behind our car and also to prepare our car for the race.*

It was then time to race. We went up against another team, in a sort of drag race. Fortunately our car was faster and we came 4th out of the ten that were competing in the Bloodhound class.

For the rest of the day we went around the stalls, promoting our team and stall. Eventually, we were all called to the seating area, where the organising crew were presenting awards. Although, we're not going through to the next round in London, we won an award for best Team Identity which means we were the best behaved and had the best costume. We are really hoping to compete again as it was a very fun and interesting day!

Izak Zjalič





Gweithio gyda Eraill

Ddydd Mawrth, Ionawr 14 2014, trefnwyd gweithgaredd menter ar gyfer gweithio gydag eraill fel rhan o Fagloriaeth Cymru. Aelodau'r grŵp oedd Anna Davies, Rebecca Kohler, Aron Penny, Oliver Lanz, Hope Kennedy a Ffion Newton. Roedd rhaid i'r grŵp feddwl am syniadau ar gyfer hybu iaith a diwylliant Cymru yn yr ysgol. Ein syniad olaf oedd i gael cystadleuaeth i flwyddyn 7,8 a 9 greu bwydlen Gymreig ac roedd yr ennillwyr yn cael dewis athro neu athrawes i ddod i flasau'r bwyd a'r grŵp oedd am goginio'r bwyd a'i gyflwyno iddyn nhw. Yr ennillwyr oedd Benjamin Davies, Dillon Brown, Sion Coleman a Josh Tisdale. Y fwydlen a goginwyd oedd cawl cenin a thatws i ddechrau, byrger cig oen ar gyfer y prif gwrs a chacenau Cymreig i bwddin. Cafodd tri o athrawon eu gwahodd sef Mr Llifon Ellis, Mr Nic Ros a Mr Alwyn Jones.

Dyma adborth a gawson gan yr Athrawon:

"Braint oedd cael fy newis i gael blasu danteithion y 6ed dosbarth; bwyd a goginwyd ar sail dewisiadau bechgyn blwyddyn 8. Roedd y cwrs cyntaf yn arbennig o flasus; cawl cennin a thatws - roeddwn yn falch bod rhagor o hwn ar gael ar y diwedd! Cafwyd hwyl arbennig o dda gan y myfyrwyr ar goginio'r byrgyrs cig oen hefyd gyda'r pwddin yn goron ar y cyfan.

Diolch o galon i bawb am eu gwaith caled - gan obeithio am yr un safon y flwyddyn nesaf!" -

Mr Llifon Ellis

"Llongyfarchiadau enfawr i'r Tim Menter yn y 6ed dosbarth ar drefnu cystadleuaeth ac achlysur diddorol a blasus. Roedd yn syniad o gynnwys rhai iau yn yr Ysgol yn llwyddiannus, ac roedd y bwyd wedi ei baratoi'n ofalus ac yn hynod o flasus. Braf hefyd oedd cael rhai'n gweini arnom. Ffantastig o brynhawn."

Diolch yn dalpiâu,
Nic Ros.

On Tuesday, 14 January an activity was organised as part of the Working with Others and Enterprise project for the Welsh Baccalaureate qualification. Members of the group were Anna Davies, Rebecca Kohler, Aron Penny, Oliver Lanz, Hope Kennedy and Ffion Newton. The group had to think of ways to promote the Welsh language and culture. We decided to stage a competition for Years 7, 8 & 9 to create a Welsh menu. The winners were Benj Davies, Dillon Brown, Sion Coleman and Josh Tisdale who were then allowed to select a teacher to taste the menu. The menu created was leek and potato soup for starters; lamb burger for the main course and Welsh cakes for pudding. Three teachers were invited: Mr Llifon Ellis, Mr Nic Ros and Mr Alwyn Jones.

This was the feedback we received from the teachers:

"It was a pleasure to be chosen to taste the food by the 6th form from the menu that was created by the Year 8 boys. The first course was brilliant and tasty! We had good fun watching the students cook the lamb burgers and the pudding was the best of the whole lot. Thank you everyone for your hard work. I'm hoping for the same quality of food next year!" -

Mr Llifon Ellis

"Congratulations to the team in the 6th form for organising the competition and interesting event. The idea of including the younger pupils of the school made the event even more successful. The food prepared was tasty and was prepared very carefully. It was so nice having someone serving us. It was a brilliant afternoon."

Nic Ros.



Y Chweched Dosbarth

Braf yw cael nodi bod nifer uchel o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn bwriadu dychwelyd i'r Chweched Dosbarth yma yn Ysgol Bro Ddyfi. Mae rhai disgyblion o ysgolion cyfagos hefyd yn bwriadu dod yma i astudio yn y Chweched Dosbarth. Edrychwn ymlaen at groesawu pob un ohonyn nhw.

Ers dymchwel y wal yn y llyfrgell mae'n deg dweud mai'r llyfrgell erbyn hyn yw un o gorneli braffaf yr Ysgol. Prynwyd dwy sofffa i'w gosod yno ac mae holl naws y lle yn denu pobl at ddarllen. Yn ogystal â hyn gosodwyd gliniaduron yn y 'stafell gefn i'w defnyddio gan fyfyrwyr y Chweched Dosbarth yn ystod eu cyfnodau Astudio Annibynnol. Braf yw gweld cystal defnydd yn cael ei wneud o'r gofod.



Sixth Form

It is good to note that a high proportion of the current Year 11 pupils intend to continue their education here at Ysgol Bro Ddyfi. A significant number of pupils from nearby schools have also shown an interest in studying here. Every one of them is welcome.

Since knocking a wall down in the library, it's fair to say the library is probably by now one of the most pleasant corners in the school. The atmosphere is conducive to study; re-search and reading. Laptop computers with access to the school's network have been placed in the small room at the back and are used by Sixth Form Students during their independent study periods. It's good to see such good use of space being made.





Rhifedd / Numeracy

Beth yw Rhifedd a pham bod Rhifedd yn bwysig?

Rhifedd yw gwneud defnydd o'r hyn a ddysgir mewn gwersi mathemateg yn ein bywyd bob dydd. Mae bod yn rhifog yn bwysig iawn i fod yn llwyddiannus mewn llawer o swyddi gwahanol er enghraifft cogydd i allu pwyso'r cynhwysion yn gywir, gweithiwr siop i allu rhoi'r newid cywir i gwsmer neu athro/athrawes i amseru tasgau o fewn gwers.

Cwestiwn Rhif yr wythnos ar Twitter

I helpu datblygu sgiliau rhif disgyblion rydym wedi dechrau cyflwyno cwestiynau rhif yr wythnos ar Twitter yr ysgol (@broddyfi). Rydym yn ceisio annog pob disgybl i gymryd rhan i ateb cwestiwn rhif yr wythnos ar Twitter. Bydd gwobr i'r disgybl sydd yn ateb y mwyafrif o'r cwestiynau yn gywir ar ddiwedd pob tymor.

Cwestiwn Rhif

Rhif lwcus Mari yw 7. Dywedodd Rhiannon petai 10 yn cael ei adio at ei rhif lwcus hi a bod y canlyniad yn cael ei rannu â 2 y cewch chi rif Mari. Beth yw rhif lwcus Rhiannon?

Ateb:

Profion Rhifedd a Llythrennedd

Mis Mai yma mae'r Llywodraeth Genedlaethol Cymru yn cynnal profion statudol Rhifedd a Llythrennedd i ddisgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9. Mae'r profion yn cyd-fynd ag amcanion y Llywodraeth sef codi safonau rhifedd a llythrennedd mewn ysgolion. Mae yna 2 brawf rhifedd y flwyddyn yma sef trefniadol rhif ac ymresymu rhif sydd yn cael ei lawnsio y flwyddyn yma. Hyd y profion rhifedd yw 30 munud yr un ac mae'r prawf llythrennedd yn awr. Fel ysgol, byddem yn helpu i baratoi'r disgyblion tuag at y profion drwy gynnal gweithgareddau rhif megis bore rhif a chwestiwn rhif yr wythnos.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Mr Tegid Owen, Cydlynnydd Rhifedd yr ysgol.



What is Numeracy and why is it important?

Numeracy is the use of what is learnt in mathematics lessons in day to day life. Being numerate is important to be successful in many different jobs such as a chef to be able to weigh the correct amount of ingredients, a shop assistant to be able to give the correct change to customers or a teacher to be able to time tasks within a lesson.

Numeracy Question of the week on Twitter

To help develop the pupils' numeracy skills we have introduced a numeracy question of the week on the school's Twitter (@broddyfi). We are trying to encourage every student to take part in the numeracy question of the week on Twitter. There will be a prize for the pupil that correctly answers the most questions at the end of each term.

Numeracy and Literacy Tests

This May the Welsh Assembly Government will conduct their statutory Numeracy and Literacy tests for Years 7, 8 & 9 pupils. The tests correspond to the government's objectives which is to raise numeracy and literacy standards in schools. This year there will be two numeracy tests: the Numeracy Procedural and the Numeracy Reasoning test which are being introduced this year for the first time. The duration of the numeracy tests are 30 minutes each and the literacy test lasts an hour. As a school we will be helping pupils prepare for the tests with numeracy activities such as the Numeracy Morning and the Numeracy Question of the Week.

For more information, contact Mr Tegid Owen, Bro Ddyfi's Numeracy Coordinator.

Numeracy Question

Mari's lucky number is 7. Rhiannon said that if 10 was added to hers and the result divided by 2 you would get Mari's. What is Rhiannon's lucky number?

Answer:

Radio Bro Ddyfi yn 2 oed!

It's been 2 years already! From morning music to ease the pupils into the day; to special shows during the Olympics and Year 11 end of year special. It has been an eventful year!

Hywel Gwynfryn officially opened the school radio and held an interview with some of the pupils which was broadcast on BBC Wales.

The school radio has been successful in getting pupils to develop their ICT skills in editing their podcasts and ensuring that the sound levels and the music is suitable for broadcast to the entire school at break time and lunchtime.

At first, all shows were recorded before hand. But over the past few months we have been able to have a steady set of producers who are trusted to broadcast live to the school!

Not only is the school radio used during Morning, break and lunchtime, it is also used for recording oral examinations in the Welsh Department and also by the French Department. The radio has also been a part of the school's aim to raise standards in literacy.

The ICT and Media Studies departments are also able to use the school radio to create radio shows for their projects. Samples of some of the shows can be downloaded from the school website: www.radio.broddyfi.co.uk

During activities week where year 9 does a Menter project to raise money for a good cause, one aspect of the work is to create a radio show and a jingle for the school radio to advertise what they are selling. These can be heard by visiting www.menter.broddyfi.co.uk

We can only hope that it will continue to grow from strength to strength in the coming year and only imagine what our pupils will create on this brilliant equipment!



Mae hi'n ddeuflwydd oed yn barod! O'r caneuon boreol sy'n deffro'r disgyblion a'u cael yn barod at waith i'r sioeau arbennig megis sioe Y Fflam Olympaidd a'r sioe diwedd blwyddyn 11 arbennig, mae hi wedi bod yn andros o flwyddyn ddiddorol!

Agorwyd y sianel yn swyddogol gan Hywel Gwynfryn ac fe gynhaliwyd cyfweiliad gyda rhai o'r disgyblion a gafodd ei ddarlledu ar BBC Radio Cymru.

Mae Radio Bro Ddyfi wedi bod yn llwyddiannus wrth gael y disgyblion i ddatblygu eu sgiliau TGCh wrth addasu a chreu eu rhaglenni eu hunain ar gyfer eu sioeau sydd yn cael eu darlledu yn fyw eleni yn ystod amser egwyl ac amser cinio.

Yn wreiddiol, roedd y rhaglenni yn cael eu recordio o flaen llaw ond dros y misoedd diwethaf, mae'r disgyblion wedi cael y cyfle i ddarlledu'n fyw i'r ysgol gyfan!

Nid ar gyfer darlledu rhaglenni yn ystod y dydd yn unig y defnyddir Radio Bro Ddyfi. Fe'i defnyddir hefyd i recordio tasgau ac arholiadau llafar adran Y Gymraeg a'r adran Ffrangeg. Mae'r radio yn rhan ganolog o gynllun yr ysgol i wella safonau llythrennedd.

Mae'r adran TGCh a'r adran Cyfryngau wedi defnyddio'r radio er mwyn creu rhaglenni radio am eu prosiectau yn y pwnc. Mae rhai enghreifftiau o'r sioeau ar gael i'w lawrlwytho o www.radio.broddyfi.co.uk

Yn ystod wythnos gweithgareddau lle mae blwyddyn 9 yn gweithio ar brosiect Menter er mwyn hel arian ar gyfer achosion da, rhoddir cyfle i'r disgyblion greu hysbyseb radio a fydd yn cael ei darlledu er mwyn hysbysebu'r hyn y mae pob tim yn ei werthu. Gallwch glywed rhai o'r rhain trwy ymweld â'r wefan www.menter.broddyfi.co.uk

Gallwn ond gobeithio y bydd Radio Bro Ddyfi yn mynd o nerth i nerth yn y flwyddyn sydd i ddod.







Ewch gyda'r llif
Get with it

Pêl-Fasged Gogledd Powys 12/3/14

Aeth tîm Pêl-Fasged Blwyddyn 8 a 9 i'r Drenewydd i gystadlu yn nhwrnamaint Gogledd Powys ym mis Mawrth. Llwyddodd y bechgyn i ennill pob gêm yn rhwydd yn erbyn tîmoedd o Lanidloes, Y Trallwng a'r Drenewydd yn rowndiau cyntaf. Roedd hyn yn golygu bod Bro Ddyfi drwodd i'r rownd derfynol yn erbyn tîm Llanidloes. Enillodd y bechgyn y gêm yn rhwydd o 8-0 i fod yn bencampwyr Gogledd Powys. Aeth y bechgyn trwy'r gystadleuaeth i gyd heb ildio'r un pwynt; perfformiad amddiffynnol anhygoel gan y bechgyn.

North Powys Basketball 12/3/14

The Year 8 & 9 Basketball team travelled to Newtown for the North Powys Basketball tournament in March. The boys managed to win all the games in the group stage against teams from Llanidloes, Welshpool and Newtown. This meant they progressed to the final against a team from Llanidloes. They comfortably won the game 8—0 to become North Powys Champions. The team from Bro Ddyfi managed to go throughout the whole tournament without conceding a point, an incredible defensive performance.

Badminton Gogledd Cymru 12/2/14

Aeth 3 tîm o Ysgol Bro Ddyfi i Lannau Dyfrdwy i gynrychioli Gogledd Powys yn rownd derfynol Gogledd Cymru. Yn anffodus oherwydd y tywydd drwg roedden wedi gorfod gadael yn gynnar ar ôl dwy gêm. Mae'r twrnamaint wedi cael ei ail drefnu ar gyfer Mai 7^{fed}.

North Wales Badminton 12/2/14

3 teams from Ysgol Bro Ddyfi travelled to Deeside to represent North Powys in the North Wales Final. Unfortunately, the bad weather forced us and many teams to leave early after only 2 games. The tournament has been re-scheduled for Mai 7th.

Gwobrau Chwaraeon Sir Drefaldwyn 31/1/14

Mi gafodd James Ingleston ei enwebu fel Arweinydd Chwaraeon Ifanc y Flwyddyn, yn anffodus ni ennillodd James, ond roedd cael ei enwebu yn llwyddiant ynddo'i hun.

Montgomeryshire Sports Awards 31/1/14

James Ingleston was nominated Young Sports Leader of the Year. Unfortunately James didn't win, but being nominated was a great achievement.

Llysgenhadon Ifanc Arian Ysgol Bro Ddyfi 7/2/14

Sara Rees a Fflur Jones yw'r Llysgenhadon Ifanc newydd ar gyfer eleni. Aethon ar ddiwrnod ymarfer yn Llandrindod gyda'r Llysgenhadon Ifanc eriall o Bowys a chawsom gyfle i gwrrdd â'r athletwr o Gymru, Christian Malcolm, sydd wedi cynrychioli Prydain Fawr mewn 4 Gemau Olympaidd.

Ysgol Bro Ddyfi Silver Young Ambassadors 7/2/14

Sara Rees and Fflur Jones are the new Silver Young Ambassadors for this year. They went on a training day in Llandrindod with the other Young Ambassadors from Powys. They also had a chance to meet Welsh athlete Christian Malcolm, who has represented Great Britain in 4 Olympic Games.

Sboncen Gogledd Powys 27/3/14

Aeth Paul Jones, Sean 'Benji' Davies a Sion Coleman i gynrychioli'r Ysgol yng nghystadleuaeth Sboncen Gogledd Powys. Daeth y bechgyn yn 5^{ed}. Da iawn chi

North Powys Squash 27/3/14

Paul Jones, Sean 'Benji' Davies and Siôn Coleman represented the school in the North Powys Squash Tournament. The boys finished in 5th position.

Ras Gyfnewid Baton y Frenhines

Ar Fai 28^{ain}, mae Baton y Frenhines yn dod i Fachynlleth (fresiwn y Gemau Gymanwlad o'r Fflam Olympaidd). Mae Tomi Evans, Sian Breese Griffiths, James Ingleston a Kieran Jones wedi cael eu dewis i gario'r baton trwy'r dre. Anrhydedd anhygoel i'r 4 disgybl o Ysgol Bro Ddyfi.

Queen's Baton Relay

On May 28th, the Queen's Baton Relay is coming to Machynlleth (Commonwealth Games version of the Olympic Torch). Tomi Evans, Sian Breese Griffiths, James Ingleston and Kieran Jones have been selected as Baton Bearers on the day. An incredible honour for the 4 pupils of Ysgol Bro Ddyfi.

Syrffio

Mi fydd syrffio yn dechrau eto ym mis Mai. Unrhyw un sydd â diddordeb i fynd i weld Steffan.

Surfing

Surfing will be starting in May. Anyone who is interested should see Steffan.

GWAITH CELF A CHREFFT YR URDD

4 Gwaith Lluniadu 2D Bl. 7 ac 8

Rose Williams Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 3ydd

5 Gwaith Lluniadu 2D Bl. 9

Jasmine Browne Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 1af
Olivia Ashworth Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 2il

17 Gwaith Creadigol 3D Bl. 7 ac 8

Ellie Crowley Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 2il
Myfanwy Fenwick Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 3ydd

38 Gwaith Lluniadu 2D Bl.7,8 a 9

Harley Jones Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 1af

61 Argraffu Bl. 7 ac 8

Myfanwy Fenwick Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 1af
Glain Lewis Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 2il

66 Graffeg Cyfrifiadurol Bl. 7 ac 8

Glain Lewis Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 1af

81 Mwgwd neu Byped Bl 7 ac 8

Glain Lewis Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 1af

86 Argraffu/Addurno ar Ffabrig Bl. 7 ac 8

Glain Lewis Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 1af
Myfanwy Fenwick Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 2il

94 Gwaith Creadigol 2D Tecstilau Bl. 7 ac 8

Cerys Hickman Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 1af

99 Gwaith Creadigol 3D Tecstilau Bl. 7 ac 8

Myfanwy Fenwick Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 2il

104 Gwau/Crosio Bl. 7 ac 8

Ffion Davies Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 1af

112 Gwehyddu Bl. 7 ac 8

Ffion Davies Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 1af

120 Print Monocrom Bl. 7, 8 a 9

Tegan Llio Roberts Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 2il

124 Print Lliw Bl. 7, 8 a 9

Elan Duggan Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 2il

Tegan Llio Roberts Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 3ydd

132 Cyfres o Brintiau Lliw Bl. 7, 8, a 9

Glain Lewis Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 1af

138 Gemwaith Bl. 7 ac 8

Ffion Davies Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 1af
Glain Lewis Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 2il

153 Creu Arteffact Bl. 10 ac 11

Fflur Jones Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 1af
Megan Alaw Lewis Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 2il

156 CAD Bl. 7-9

Izak Zjalic Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 1af

157 CAD Bl. 10 ac 11

Steffan Hywel Williams Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 1af

158 CAD Bl. 12 a dan 19 oed

Elin Evans Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 1af

159 CAD / CAM Bl. 7-9

Izak Zjalic Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 1af
Rhodri Griffiths Ysgol Uwchradd Bro Ddyfi 2il



Y Chweched Dosbarth

S4/C
Calon Cenedl
Heart of the Nation

When you come to the Sixth Form here at Ysgol Bro Ddyfi, you'll be one of two kinds of student; either as a returnee who has already experienced up to five memorable years at the school, or as a complete newcomer from another secondary school, or you may be simply looking for a new scene to challenge yourself. The great thing about the school here in Machynlleth is that that's the way it's been for years, and so we've trained ourselves over the decades so we know how to accommodate both kinds of pupil.

I myself have been here since Year 7, and like everybody else who's been here over previous years, I know the many benefits the Sixth Form has to offer. But what about you potential first-timers? Well firstly, you'll be quickly integrated into the Sixth Form as you make friends with those, not only in your year group, but in the year above you too. That's actually one of the universal benefits of joining the Sixth Form here, as returning students will be able to re-establish friendships which were thought to be lost years before, something I've discovered for myself through my own experiences. Secondly, due to the nature of the school's population, there'll be huge benefits for your education as smaller class sizes mean you'll be able to get more one-on-one time with your teachers, an advantage that's nearly unique to Ysgol Bro Ddyfi. This will ensure not only that you improve on topics that you are struggling with, but that you excel at them. Another enormous advantage of this is that the school can offer you a free range of choices, in the sense that you are not constricted to selecting certain subjects from certain boxes as in the case with most other Sixth Forms. Here you can pick four completely unrelated subjects and be able to take all four.

But what of issues outside of our magnificent classrooms such as independent studies and extra-curricular activity? Well, as a sixth former, you'll be left with free lessons to

catch up on your work or get some extra revision done. There are five separate computer rooms to do your work and perform your research on so you'll never be without access to a tidy essay or resources to help you with it. Also, we have a library that remains quiet during lessons that will give you all a tranquil environment to do your work. However be aware that during exam time, you might be forced to share it as you frantically cram in those last all-important facts, figures, and formulae. Also, if you fancy keeping fit, access to the gym over at the local leisure centre, just over the road is free during school hours – just make sure you don't spend all your free time there!

Having Mrs ap Robert as our Head of Sixth Form is a blessing, because between finishing your GCSEs this summer and you AS levels next year, you'll seriously be starting to consider your options after Sixth Form – something that Miss here is a very patient expert at. When I and my year group made our university applications, Miss guided us gracefully through the tornado that is UCAS; she'll help you transform your personal statement from the style of a Katie Price autobiography to an Oscar Wilde soliloquy.

So really, there's no reason for you not to come to the Sixth Form at Ysgol Bro Ddyfi. Here you'll have the opportunity of subject freedom, to better yourself on an academic level, to continue to forge an identity and make more friends before you take those first steps in the world work, wives and wisdom.

Calum Davies

Head Pupil



Blog y Prif Athro

Head Teacher's Blog



 @BRODDYFI

BLOG Y PRIFATHRO

**BLOG WYTHNOSOL
MR DAFYDD JONES'
WEEKLY BLOG**

WWW.BRODDYFI.CO.UK



Defnyddiwch y côd QR yma i gael linc i'r blog!
Use this QR code to get a direct link to the
blog.



Adran Addysg Gorfforol / P.E Department

Llongyfarchiadau i'r merched am gyfrannu at Dwrnamaint Pêl-rwyd y Sir yn Nhrallwng ddydd Llun 10/3/14. Da iawn i BL.7 yn benodol am ddod yn 2il.

Congratulations to the girls for competing in the County Netball Tournament on Monday 10 March, in particular, Year 7, who came



Canlyniadau Eisteddfod

1af	Deuawd bl 7-9: Malen a Glain Deuawd bl 10 a dan 19: Lliwen a Trystan Ensemble LLeisiol bl 13 ac Iau: Trystan, Hari a Tomi Alaw Werin bl 7-9: Dyfan Parry Jones Alaw Werin bl 10 a dan 19: Lliwen Glwys Jones Côr Gwerin 3 Llais Unawd Cerdd Dant bl 7-9: Malen Aeron Unawd Cerdd Dant b; 10 a dan 19: Lliwedd Rhys Jones Parti Cerdd Dant bl 7-9 Côr Cerdd Dant bl 13 ac Iau
2il	Unawd Bechgyn: Dyfan Parry Jones Ensemble Lleisiol bl 13 ac Iau: Lliwen, Naomi, Marged ac Elin Alaw Werin bl 7-9: Malen Aeron Unawd Piano bl 7-9: Malen Aeron
3ydd	Unawd Bechgyn bl 10 a dan 19: Trystan Waters Alaw Werin bl 7-9: Glain Lewis Llefaru bl 10 a dan 19: Lliwedd Rhys Jones



280: Grwp dawnsio Hip-Hop/ Stryd/ Disgo BI7,8,9

2il Grwp Fflach (BI7)

- Rhiannon Mills
- Keri Mills
- Lauren Watts
- Rose Williamson
- Tegan Roberts
- Gwenno Lewis
- Lauren Jones Larkin
- Sophie Dafydd
- Maya Roberson
- Emma Halls

3ydd Parti Jas (BI9)

- Jasmine Brown
- Steff Morris
- Elan Duggan
- Amy Jones
- Robyn Williams
- Lois Jones

281: Dawns Hip-Hop/ Stryd/ Disgo BL10 a dan 19oed

- 1af Lliwen Glwys Jones
- 2il Gwawr Jones



Rhieni yn cynnal a chefnogi eu plant

Afraid dweud bod pob rhiant yn dymuno gweld ei blentyn yn llwyddiannus ac hapus, ac fod rhieni'n gweithio'n galed i sicrhau hynny. Rydym ni yma yn Ysgol Bro Ddyfi yn lwcus iawn o'r gefnogaeth mae'r disgyblion yn ei dderbyn gan eu rhieni, ac yn ymfalchio yn y cysylltiadau a'r cydweithio rhyngddom ni a'r rhieni sydd yn digwydd er mwyn



sicrhau llwyddiant y bobl ifanc sy'n mynychu'r ysgol. Gwerthfawrogwn yn fawr bod nifer deilwng o rieni wedi mynychu'r gweithdy i rieni yn ddiweddar a arweinwyd gan Positively MAD sef cwmni sy'n hyfforddi plant, disgyblion a rhieni am sut i baratoi at arholiadau. Cafwyd sesiwn ddiddorol iawn gyda Jay, yr hyfforddwr yn esbonio sut mae strategaethau fel mapiau meddwl a pegio yn gallu cael eu defnyddio er mwyn cofio gwybodaeth ac adolygu'n effeithiol.

Pegio

Dull o gofio pethau'n hwylus a gyflwynwyd yn ystod y gweithdy oedd 'pegio'. Yma, mae disgyblion yn cysylltu rhywbeth gyda rhywbeth arall sy'n gyfarwydd. Enghraifft o hyn yw y gellid dysgu rhestr o wledydd y byd trwy eu cysylltu gyda chelfi yn yr ystafell wely, neu gyda rhannau o'r corff.

Mapiau meddwl

Er mwyn dysgu am sut mae Mapiau Meddwl yn gweithio a sut i'w creu, dyma fideo all fod o ddefnydd:



<http://youtu.be/4wZ5wV5dPZc>

Dyma enghraifft sy'n dangos sut i greu map meddwl – gofynnwch i'ch plentyn ei esbonio i chi. Mae disgyblion Blynyddoedd 8-13 wedi derbyn hyfforddiant naill ai eleni (blynyddoedd 8-10) neu ddwy flynedd yn ôl (blynyddoedd 11-13), ac mae mapiau meddwl hefyd yn cael eu cyflwyno a'u dysgu i Blwyddyn 7 fel rhan o'r rhaglen Dysgwr Smart.


Sut i greu a defnyddio map meddwl?



Dyma becyn defnyddiol iawn o strategaethau adolygu a ddefnyddir gan ysgolion yn yr Alban – mae'n werth cymryd cipolwg ohono.

<https://blogs.glowscotland.org.uk/er/SNHPastoralSupportWebsite/files/2012/01/Study-Skills-02.pdf>

Trefnu'r gwaith a'r adolygu



Hefyd, pwysleisiodd Jay o Positively MAD sawl peth diddorol arall yn ei gyflwyniad gan gynnwys:

Eistedd fynyn syth – mae hyn yn caniatáu i waed ac ocsigen lifo i'r ymennydd, ac mae hyn yn hwyluso'r broses o ddysgu a chofio.

Mae pobl yn cofio 90% o beth maent yn ei ddysgu i rywun arall, ac felly mae'n werth gofyn i'ch plentyn ddysgu i chi beth maent wedi ei ddysgu yn ystod y cyfnod adolygu diwethaf.

Peidio adolygu gyda ffôn symudol a Facebook ar waith – mae defnyddio ffôn symudol a Facebook fel arfer yn gwastraffu 40 munud. Dylid cadw defnyddio rhain at amser egwyl – hynny yw, adolygu am 45 munud ac yna 15 munud i siarad gyda ffrindiau ar y ffôn neu'r we.

Mae dysgwyr fel arfer yn gweithio'n fwy effeithiol os ydynt yn adolygu yn y gegin neu'r ystafell fwyta. Mae angen llonydd oddi wrth frodyr a chwiorydd, ond dylai rhiant fod yn gyfleus i gynnal y disgybl e.e. gofyn cwestiynau am y gwaith, profi i sicrhau ei fod yn dysgu'r gwaith a sicrhau nad yw'r we, yr X-box neu'r PSP a'r ffôn symudol yn cael eu defnyddio pan na ddylai hynny ddigwydd.

Holiadur Blwyddyn 11 – adolygu ac arholiadau

Cyn ffug arholiadau Rhagfyr, osbarthwyd holiadur i 15



o ddisgyblion Blwyddyn 11. Roedd rhai o'r atebion i'r holiaduron yn ddi-dorol iawn ac yn atgyfnerthu'r uchod wrth drafod patrymau gweithio gartref y disgyblion:

Roedd sawl un o'r disgyblion wedi nodi nad oeddynt yn gweithio ddigon caled yn y cartref, ac yn dweud bod **y we, gemau cyfrifiadurol a'r ffôn symudol yn denu gormod o'u sylw.** Mae hyn yn cyd-fynd gyda beth ddywedodd Jay o Positively MAD sef bod budd i ddisgyblion fod yn gweithio **dan oruchwyliaeth yn rhywle heblaw'r ystafell wely a lle bynnag arall mae'r pethau hyn ar gael i'w defnyddio heb reolaeth.**

Nododd ambell un hefyd eu bod yn treulio gormod o **amser allan gyda'u ffrindiau** ac yr hoffent i'w rhieni eu cadw yn y tŷ am gyfnodau adolygu penodol. Mae cael amser i ymlacio hefyd yn **bwysig, ond mae angen cydbwysedd, ac mae'r** cyfnod cyn yr arholiadau yn gyfnod pwysig o adolygu.

Roedd mwyafrif y bechgyn a holwyd, a rhai o'r merched yn dweud eu bod **eisiau i'w rhieni eu** helpu i greu a rheoli amserlen adolygu.

Gwelwyd ambell un o'r disgyblion yn dweud bod brodyr a chwiorydd iau yn tarfu ar eu gwaith, a bod cael llonydd i adolygu yn gallu bod yn **anodd.** Awgrymwyd wrth ddisgyblion sy'n byw yn y dref y gallent ddefnyddio llyfrgell y dref ar gyfer **adolygu ac mae'r ysgol ar agor am gyfnodau helaeth o'r gwyliau a than tua 6.00 o'r gloch bob nos.**

Roedd mwyafrif y bechgyn, a rhai o'r merched wedi dweud eu bod yn dymuno bod eu rhieni yn eistedd gyda hwy wrth iddynt adolygu, **a'u** bod yn eu profi ar yr hyn a ddysgwyd, yn syth ar ddiwedd y sesiwn adolygu, ac o fewn 2-3 diwrnod i weld os oeddynt yn dal i gofio'r wybodaeth.

Dywedodd sawl un hefyd eu bod yn dymuno bod eu rhieni yn trafod gyda hwy y broses o gwblhau cyn bapurau arholiad; buasai hyn yn atgyfnerthu beth **mae'r disgyblion wedi ei ddysgu yn yr ysgol.**

Beth mae'r athrawon wedi ei wneud am ganlyniadau'r holiadur?

Adroddwyd yn ôl ar ganlyniadau'r holiadur i athrawon yr ysgol hefyd, a gwelwyd criw o athrawon yn rhannu gwybodaeth mewn sesiwn rhannu arfer dda am sut maent yn paratoi disgyblion ar gyfer arholiadau e.e. adnabod a rhannu nodweddion atebion mathau gwahanol o gwestiynau, ymdopi â geirfa annisgwyl yn yr arholiad, a datblygu dealltwriaeth disgyblion o eiriau gorchymyn. Rhannwyd hefyd wybodaeth am safle gwe Quizlet (<http://quizlet.com/>) sef safle gwe lle mae'n bosib creu a chwarae cwisiau adolygu. Mae'r disgyblion sydd eisoes wedi mentro defnyddio'r safle gwe hwn wedi mwynhau'r gwaith a hefyd yn dweud ei fod o gymorth mawr wrth adolygu. Anogir pob disgybl felly i roi tro arni.

Yn olaf...



Yn nogfen yr OECD am brofion PISA ar sut gall rhieni helpu eu plant i lwyddo yn yr ysgol (<http://www.pisa.oecd.org/dataoecd/4/1/49012097.pdf>), nodir bod disgyblion yn fwy tebygol o lwyddo mewn arholiadau pan yn 15 mlwydd oed (sef TGAU yng Nghymru), ac yn debygol o fod â sgiliau darllen gwell os yw'r canlynol yn digwydd:

- Rhieni yn darllen gyda phlant gan ddechrau pan fyddant yn blant ifanc iawn
- Rhieni yn trafod llyfrau, ffilmiau a rhaglenni teledu gyda'u plant
